GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol yng Nghymru

## Gweithdai dilysu mapio systemau i blant a phobl ifanc



## Awduron

Cathrine Winding, Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus a Christian Heathcote-Elliott, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus

## Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r canlynol, a gyfrannodd at ddatblygu'r map systemau:

- Gweithwyr ieuenctid yng Nghynghorau Bwrdeistref Sirol Conwy a Thorfaen a arweiniodd y gweithdai i blant a phobl ifanc
- Catrin Lyddon a Troy Wey am gynorthwyo â datblygu deunyddiau'r gweithdai

*© 2023, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gall deunydd sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon gael ei atgynhyrchu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny yn gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant, y dyluniad a'r gosodiad teipograffyddol yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru*

*ISBN: 978-1-83766-294-4*

Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd
Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Tyndall Street
Caerdydd CF4 10BZ

E-bost: PHW.Determinants@wales.nhs.uk
icc.gig.cymru /addysg

## 1. Cefndir

Mae addysg yn gonglfaen ar gyfer iechyd a llesiant, ond nid yw pob person ifanc yn cael y cyfle i gyrraedd ei botensial. Mae bwlch cyson mewn cyflawniad addysgol[1] yn gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol, y mae'r pandemig wedi'i waethygu. Mae lleihau'r bwlch hwn yn flaenoriaeth yn rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar ddeilliannau addysg, gan ddefnyddio dull seiliedig ar system i adnabod ble y gallwn ni ychwanegu gwerth. Mae ein ffocws ar beth yn fwy y gellir ei wneud i leihau'r bwlch mewn cyflawniad addysgol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn cefnogi iechyd, llesiant a thegwch. Mae hyn yn ategu ein gwaith ar ysgolion fel lleoliad iach.

Rydym wedi ymgymryd â phroses mapio systemau cyfranogol gydag amrywiaeth o randdeiliaid ym maes addysg ac iechyd er mwyn edrych ar y ffactorau, a'r berthynas rhwng ffactorau, sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol yng Nghymru. Fel rhan o ddilysu'r map systemau cyfranogol drafft, ceisiom adborth gan blant a phobl ifanc.

## 2. Y dull ar gyfer gweithdai'r plant a phobl ifanc

Yn dilyn cyflwyniad gan Grŵp y Prif Arweinwyr Ieuenctid, a roddodd olwg gyffredinol ar y gwaith mapio systemau a'r dull arfaethedig ar gyfer cynnal gweithdai gyda phlant a phobl ifanc, anfonwyd e-bost mynegi diddordeb at weithwyr ieuenctid ar draws Cymru. Cytunodd dau weithiwr ieuenctid, o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, i hwyluso gweithdai gyda grwpiau presennol o blant a phobl ifanc.

Gofynnwyd i'r hwyluswyr gwblhau dwy dasg gyda'r plant a phobl ifanc:

- ***Tasg 1:*** *creu darluniau cyfoethog yn dangos y ffactorau sy'n gallu effeithio ar gyflawniad addysgol yng Nghymru, ym marn pobl ifanc.*
- ***Tasg 2:*** *gwirio synnwyr a rhoi adborth ar y ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol a nodwyd trwy'r broses mapio systemau cyfranogol gyda rhanddeiliaid addysg ac iechyd.*

Defnyddiwyd darluniau cyfoethog fel dull o hoelio sylw ac ysgogi sgwrs gyda phlant a phobl ifanc. Mae darluniau cyfoethog yn ddarlun neu'n lluniad o system neu 'sefyllfa'.[2] Maen nhw'n gynrychiolaeth gyffredin o agwedd ar realiti a bach iawn o eiriau sydd ynghlwm, fel arfer.

[1] At ddibenion y briff hwn, rydym yn defnyddio'r gair cyflawniad, sy'n ymgorffori cyrhaeddiad (sy'n cael ei fesur trwy gymwysterau ffurfiol) a sgiliau bywyd ehangach.

[2] Am gyflwyniad i ddarluniau cyfoethog, gweler Barbrook-Johnson and Penn (2022).

Rhoddwyd canllaw hwyluso i hwyluswyr y gweithdai a, chyn y gweithdai, fe wnaethant gymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi ar-lein wedi'i arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd hwyluswyr eu hannog i ddilyn y camau sydd wedi'u hamlinellu yn y canllaw hwyluso er, cydnabuwyd y byddai angen hyblygrwydd yn dibynnu ar lefel symbyliad a diddordeb plant a phobl ifanc yn y gweithgareddau.

Ar ddechrau'r gweithdai, rhoddodd yr hwyluswyr olwg gyffredinol ar y gwaith, atebont unrhyw gwestiynau a cheisiont gydsyniad gan y plant a phobl ifanc. Ar gyfer ymarfer y darlun cyfoethog (tasg 1), rhoddwyd enghraifft o ddarlun cyfoethog (Atodiad Un) i'r plant a phobl ifanc, ynghyd ag enghreifftiau o ffactorau (e.e. pethau yn yr ysgol neu gartref, neu'r man lle'r ydych chi'n byw) sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol. Gofynnwyd iddynt greu darlun cyfoethog o'r ffactorau a all, yn eu barn nhw, effeithio ar gyflawniad addysgol yng Nghymru i blant hyd at 16 oed / neu lefel TGAU.

Ar gyfer tasg dau, rhoddwyd rhestri o ffactorau wedi'u grwpio o'r map systemau cyfranogol i'r plant a phobl ifanc a gofynnwyd iddynt benderfynu beth oedd y ffactorau pwysicaf, a oedd unrhyw ffactorau ar goll ac am unrhyw adborth arall. At ddibenion tasg dau, cafodd geiriad y ffactorau a nodwyd yn y broses mapio systemau cyfranogol ei symleiddio.

Ar ôl y gweithdai, tynnodd yr hwyluswyr luniau o'r darluniau cyfoethog a'r taflenni adborth a'u hanfon i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn Saesneg y cynhaliwyd y gweithdai ac, felly, mae'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn y gweithdai ar gael yn Saesneg yn unig.

## 3. Canfyddiadau

### 3.1 Gweithdy Conwy

Daeth pum plentyn a pherson ifanc i'r gweithdy.

**Tasg 1**
Y ffactorau a nodwyd gan y bobl ifanc sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol oedd (gweler delwedd 1 yn Atodiad Dau):

- Wi-Fi (x3) – Wi-Fi 'gwael'
- Gwisg ysgol (x4) – gwisg ysgol 'wael'
- Straen (x2)
- Pobi (x3)
- Egwyl hirach/mwy o egwyl/mwy o amser rhydd/dim digon o amser chwarae (x4)
- Rydym ni angen mwy o amser ymarfer corff/mwy o bêl-droed/mwy o astro (astroturf) (x3)
- Mwy o amser gyda'n gilydd
- Dysgu

- Crefydd, pam rydyn ni'n ei ddysgu?
- Angen mwy o opsiynau bwyd ysgol/mwy o opsiynau bwyd gwell (x2)
- Mathemateg anodd

Mae rhai pethau tebyg yn y ffactorau a nodwyd gan gyfranogwyr y gweithdai a'r ffactorau a nodwyd gan weithwyr proffesiynol addysg ac iechyd, er enghraifft WiFi, 'mwy o astro' a fyddai'n dod o dan gategori '*Ansawdd isadeiledd ffisegol a digidol yr ysgol*' a straen, a fyddai'n dod o dan '*Iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc*'. Byddai ffactorau eraill fel 'mwy o amser ymarfer corff', 'dim digon o amser chwarae', crefydd, mathemateg anodd a dysgu'n dod o dan '*ansawdd cwricwla*' ac, o bosibl, '*ansawdd dulliau addysgu*'.

Nid yw 'gwisg ysgol wael' a mwy o opsiynau bwyd gwell yn cael eu cynrychioli ar y map systemau.

**Tasg 2**

Dangosir y canfyddiadau o ran gyntaf tasg 2 yn y tablau isod ar gyfer pob thema yn y map systemau cyfranogol. Dangosir y delweddau o'r gweithdai yn Atodiad Dau.

Y ffactorau pwysicaf yn thema addysg

| Ffactor (geiriad wedi'i symleiddio ar gyfer y gweithdy) | Ffactor (y geiriad gwreiddiol o'r map systemau cyfranogol) |
|---|---|
| Ansawdd adeiladau, ystafelloedd dosbarth, ardaloedd chwarae ac offer Technoleg Gwybodaeth yr ysgol | *Ansawdd isadeiledd ffisegol a digidol yr ysgol* |
| Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant pobl ifanc | *Ffocws ysgolion ar iechyd a llesiant* |
| Mynediad at gyfleusterau ysgol yn ystod oriau ysgol a'r tu hwnt i oriau ysgol | *Mynediad at gyfleusterau ysgol yn ystod a'r tu hwnt i oriau ysgol* |
| Cymorth i helpu pobl ifanc i symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd | *Cynllunio o ansawdd ar gyfer pontio* |
| Cyllid (arian) y llywodraeth ar gyfer addysg | *Lefel briodol o fuddsoddiad yn y system addysgol yn gysylltiedig ag angen y boblogaeth* |

Y ffactorau pwysicaf yn thema'r plentyn a'r teulu

| Ffactor (geiriad wedi'i symleiddio ar gyfer y gweithdy) | Ffactor (y geiriad gwreiddiol o'r map systemau cyfranogol) |
|---|---|
| Hyder pobl ifanc | *Hyder a hunan-barch plant a phobl ifanc* |
| Iechyd corfforol a llesiant pobl ifanc | *Iechyd corfforol a llesiant pobl ifanc* |
| Agweddau pobl ifanc at addysg (diddordeb neu ddim diddordeb) | *Agweddau pobl ifanc at addysg (diddordeb neu ddim diddordeb)* |
| Mae pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus wrth fynegi eu rhywedd | *Gallu mynegi dewisiadau rhywedd yn ddiogel* |

| | |
|---|---|
| Anghenion dysgu ychwanegol (awtistiaeth, dyslecsia, dyspracsia, ADHD) | *Anghenion dysgu ychwanegol (awtistiaeth, dyslecsia, dyspracsia, ADHD)* |
| Gallu person ifanc i ddelio â straen a phethau da a drwg bywyd | *Gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc* |

Mae hyder a hunan-barch, agweddau tuag at ddysgu a'r gallu i fynegi dewisiadau rhywedd yn ddiogel yn llunio clwstwr pwysig o ddolenni adborth yn y map systemau.

Nodwyd deg ffactor yn y themâu cymdeithasol a chymuned:

| Ffactor (geiriad wedi'i symleiddio ar gyfer y gweithdy) | Ffactor (y geiriad gwreiddiol o'r map systemau cyfranogol) |
|---|---|
| Modelau cadarnhaol o ymddygiad yn y gymuned (gweithwyr ieuenctid, yr heddlu, sgowtiaid) | *Modelau cadarnhaol o ymddygiad ar gael yn y gymuned* |
| Mynediad at amgueddfeydd, cerddoriaeth, theatr a drama | *Mynediad at y celfyddydau yn y gymuned* |
| Cymuned sy'n gefnogol, yn gynhwysol ac sy'n gweithio gyda'i gilydd | *Cydlyniant cymunedol* |
| Mynediad at deithio diogel a llesol (cerdded, beicio) | *Mynediad at deithio diogel a llesol (cerdded, beicio)* |
| Mynediad at weithgareddau allgyrsiol y tu allan i'r ysgol (clybiau chwaraeon, gwirfoddoli, clybiau gwyliau) | *Mynediad at weithgareddau allgyrsiol yn y gymuned* |
| Mynediad pobl ifanc at wasanaethau ieuenctid | *Mynediad pobl ifanc at wasanaethau ieuenctid* |
| Mynediad at fannau gwyrdd ac agored lle y gall pobl ifanc chwarae a hamddena neu wneud chwaraeon | *Mynediad at ofod gwyrdd a hamdden* |
| Diffyg arian ac adnoddau yn eich tref, eich dinas neu'ch ardal leol | *Amddifadedd cymunedol* |
| Mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel gartref, yn y stryd neu yn eu cymuned | *Diogelwch cymunedol* |
| Trin pobl ifanc yn annheg oherwydd eu hethnigrwydd | *Hiliaeth* |

Nodwyd pum ffactor yn y thema economaidd:

| Ffactor (geiriad wedi'i symleiddio ar gyfer y gweithdy) | Ffactor (y geiriad gwreiddiol o'r map systemau cyfranogol) |
|---|---|
| Incwm (arian) sy'n dod i mewn i gartref y teulu | *Incwm yr aelwyd* |
| Pethau sy'n effeithio ar y ffordd rydych chi'n byw gartref (gorlenwi, lle i chwarae) | *Amodau byw* |

| | |
|---|---|
| Gallu'r rhiant neu'r prif roddwr gofal i fforddio teithiau ysgol a gweithgareddau'r tu allan i'r ysgol | *Gallu'r prif roddwr gofal i fforddio treuliau yn gysylltiedig â'r ysgol a threuliau allgyrsiol* |
| Y gwahaniaeth mewn cyfoeth (arian) rhwng teuluoedd pobl ifanc yn yr ysgol | *Lefel yr anghydraddoldeb economaidd yn yr ysgol* |
| Faint o aelwydydd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sy'n eu cael | *% yr aelwydydd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sy'n eu cael* |

Ni wnaeth y cyfranogwyr nodi unrhyw ffactorau a oedd ar goll na rhoi unrhyw adborth pellach.

### 3.2 Gweithdai Torfaen

Cynhaliodd gweithwyr ieuenctid ddau weithdy ieuenctid yn Nhorfaen. Ni wnaeth y gweithwyr ieuenctid a gynhaliodd y gweithdai wahanu'r gweithgareddau yn llwyr a dewisont gael mwy o drafodaeth ynghylch y ffactorau (gan gynhyrchu rhestri o'r ffactorau pwysicaf), yna fe wnaeth y plant a phobl ifanc gynrychioli eu blaenoriaethau ar ffurf darluniau.

Fe wnaeth y gweithwyr ieuenctid ddal yr hyn a oedd bwysicaf i blant a phobl ifanc yn y ddau weithdy (gweler delweddau 6 a 7 yn Atodiad Dau):

- Gormod o bersawr (materion amgylcheddol, efallai)
- Yr ysgol yn rhy oer yn y gaeaf i ddysgu
- Dim digon o athrawon
- Dim digon o ymyriadau i fyfyrwyr
- Mae'r wisg ysgol yn broblem ac yn rhwystr rhag dysgu
- Maen nhw eisiau llai o bynciau yn ystod yr wythnos; byddai'n well ganddynt ganolbwyntio ar lai
- Maen nhw eisiau mwy o gyfleoedd galwedigaethol/profiad wrth weithio
- Diwrnodau eira (nid oes hawl i'r rhain mwyach oherwydd dysgu ar-lein)
- Dywedont y byddai dechrau'n hwyrach a gorffen yn gynt yn well
- Athrawon wedi'u hyfforddi'n well (nid oeddent yn hapus gyda'r ffordd roedd rhai o'u hathrawon yn siarad â nhw; 'gwersi gwael')
- Gwell cwnselwyr yn yr ysgol
- ADHD
- Mwy o gyfleoedd hamdden
- Ardal awyr agored â gorchudd drosto i gymdeithasu
- Cae 4g (soniwyd am fwy o gyfleusterau yn gyffredinol)
- Nwy/trydan a biliau'n rhy uchel yn gyffredinol i'w rhieni
- Gwneud pethau'n rhatach fel y gallwn ni wneud mwy

Mae llawer o'r ffactorau hyn yn mapio i'r ffactorau a nodwyd yn y map systemau cyfranogol, fel *materion amgylcheddol yn yr ysgol, ansawdd yr addysgu, anghenion dysgu ychwanegol, incwm yr aelwyd, isadeiledd ffisegol a digidol yr ysgol, ansawdd y cwricwla,* a mwy.

**Grŵp 1**

Dechreuodd y gweithdy gyda sgwrs am y rhestri o ffactorau o'r map systemau cyfranogol. Fe wnaeth y gweithiwr ieuenctid gofnodi beth oedd bwysicaf i'r bobl ifanc, yn eu barn nhw, yn gysylltiedig â chyflawniad addysgol (gweler uchod).

Yn ail ran y gweithdy, fe wnaeth y bobl ifanc gynrychioli eu blaenoriaethau ar ffurf darluniau cyfoethog. Rhoddwyd enghreifftiau o ddarluniau cyfoethog a thempledi i'r bobl ifanc, ynghyd ag enghreifftiau o ffactorau (e.e. pethau yn yr ysgol neu gartref). Roedd y ffactorau a gynrychiolwyd yn y darluniau cyfoethog fel a ganlyn (gweler delweddau 8-10 yn yr atodiad):

- Straen
- Bwlio
- Dim hawl mynd i'r toiled
- Gwahardd ysmygu (?)
- Triwantiaeth/presenoldeb
- 'Bws hwyr' (trafnidiaeth ysgol)
- Oer (bod yn oer yn yr ysgol neu gartref)
- "Subs" (athrawon dirprwyol)

**Grŵp 2**

Fel Grŵp 1, yn ail ran y gweithdy, fe wnaeth pobl ifanc gynrychioli 'pethau sy'n effeithio ar addysg' ar ffurf darluniau cyfoethog. Fe wnaeth y bobl ifanc gynrychioli'r canlynol yn eu darluniau cyfoethog (gweler delweddau 11-15 yn Atodiad Dau):

Delweddau 11, 12 a 14:

- Eisiau sylw/ymddygiad gwael (tarfu yn y dosbarth)
- Gwaith anghyflawn (?)
- Rheolau (yn yr ysgol neu yn y cartref)
- Iechyd meddwl
- Mynediad i adeiladau
- Teulu
- Cost teithiau ysgol
- Angen help ychwanegol ar deuluoedd (ariannol efallai neu oherwydd plant ag ADY)

Delwedd 13:

- Absenoldeb oherwydd salwch
- Gwisg ysgol

- Teithiau ysgol (cymerir yn ganiataol eu bod yn golygu cost teithiau ysgol)
- Dim hawl i adael tir yr ysgol
- Iard uchaf??
- Dectorn??
- Hawl i fynd i'r toiled yn ystod egwyliau ac amser cinio yn unig

Delwedd 15:

- Iechyd meddwl
- Ddim yn teimlo'n ddiogel (gartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned, efallai)
- Ymddygiad gwael/eisiau sylw (tarfu yn y dosbarth)
- Angen mwy o sylw ar rai teuluoedd (efallai teuluoedd â phlant ag ADY?)
- Rheolau (yn yr ysgol neu gartref)
- Teulu
- Cost teithiau ysgol
- Mynediad i adeiladau


## 4. Casgliad

Ar y cyfan, roedd llawer o bethau a oedd yn debyg rhwng y ffactorau a nodwyd yn y map systemau cyfranogol a'r ffactorau a nododd plant a phobl ifanc yn y gweithdai dilysu. Mae rhai gwahaniaethau, gan gynnwys ffactorau fel gwisg ysgol, trafnidiaeth ysgol a phrydau ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau a nododd plant a phobl ifanc yn dod o themâu addysg a'r plentyn a'r teulu yn y map systemau cyfranogol drafft.

Mae'n bwysig ystyried mai ein dehongliadau ni yw'r rhain o ddarluniau cyfoethog y bobl ifanc ac nad oeddem yn gallu cadarnhau ein dehongliad ni gyda'r cyfranogwyr yn y gweithdai na'r hwyluswyr.

Hefyd, rydym yn cydnabod mai sampl fechan oedd hon o bobl ifanc o ddwy ardal yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd yn broses ddilysu i wirio synnwyr y ffactorau a nododd y rhanddeiliaid addysg ac iechyd ar y map systemau cyfranogol. Ar y cyfan, roedd y wybodaeth a roddodd y plant a phobl ifanc yn gyson â'r map systemau cyfranogol.


**Atodiad Un: enghraifft o ddarlun cyfoethog**





Adapted from Cavana and Adams (2010) Rich picture of a simple forest value chain

**Atodiad Dau: darluniau cyfoethog ac adborth ar ffactorau o'r gweithdai i blant a phobl ifanc**


Delwedd 1: Conwy, Tasg 1



Delwedd 2: Conwy, Tasg 2, addysg



Delwedd 3: Conwy, Tasg 2, y plentyn a’r teulu




TASK 2 – EDUCATIONAL ACHIEVEMENT

Child and family


| | What's most important? |
|---|---|
| Parent or main caregiver's experience of education | |
| Highly stressful events experienced by young person (parents divorcing, living with someone who uses drugs, experiencing abuse) | |
| Young people's motivation | |
| Highly stressful events experienced by parent or main caregiver when they were a young person (parents divorcing, living with someone who uses drugs, experiencing abuse) | |
| Parent or main caregiver's relationship with teachers and school | |
| Young person's home environment (noise, lighting, air quality | |
| Young person's confidence | |
| Quality of care for young people in Looked After System (cared for by their local authority) | |
| Hopes and ambitions of parents or main caregivers for their children | |
| Access to resources in the home (books, internet, computer) | |
| Young person's quality of sleep | |
| Amount of parents or main caregivers who work in good jobs (fair pay, flexible hours) | |
| Young person's hopes and ambitions for the future | |
| Young people having to care for family members | |
| Young people's physical health and well-being | |
| Quality of relationship between young people and parent or main caregiver in early life | |
| Parent or main caregiver's relationship with health services | |
| Young people's health harming behaviours (smoking, drinking alcohol, taking drugs, unhealthy food) | |
| Young people's attitudes towards education (interested or not interested) | |
| Young people's health promoting behaviours (exercising, eating healthy food, washing your hands) | |
| Amount and quality of time parent or main caregiver can give to children to support learning at home | |
| Parent or main caregiver's mental health and well-being (e.g. feeling happy, sad or stressed) | |
| Young people feel comfortable in expressing their gender | |
| Parent or main caregiver's educational achievement | |
| Young people's mental health and well-being (e.g. feeling happy, sad or stressed) | |
| Parent or main caregiver's physical health and well-being | |
| Additional learning needs (autism, dyslexia, dyspraxia, ADHD) | |
| Quality of support for young people who are home schooled | |
| Young person's ability to deal with stress and life's ups and downs | |

Is there anything missing?


Delwedd 4: Conwy, Tasg 2, cymdeithasol a’r gymuned



Delwedd 5: Conwy, Tasg 2, economaidd




Delwedd 6: Torfaen, trafodaeth Grwpiau 1 a 2 ynghylch y rhestr o ffactorau a ddarparwyd




Delwedd 7:

*School too cold in the winter to learn*
*Not enough teachers*
*Not enough interventions for students*
*Uniform is an issue and barrier to learning*
*They want less subjects in the week; would rather focus on fewer*
*They want more vocational opportunities/ on the job work experience*
*Snow days (not allowed them anymore due to online learning)*
*They said later starts with earlier finishes would be better.*
*Better trained teachers (they were not happy with how some of their teachers spoke to them)*
*Better school based councillors*
*More recreational opportunities*
*An outdoor undercover area to hang around in*
*4g pitch*
*Gas/electric and bills in general too high for their parents*
*Make stuff cheaper so that we can do more*


Delwedd 8: Torfaen, Grŵp 1, darluniau cyfoethog





Delwedd 9: Torfaen, Grŵp 1, darluniau cyfoethog




Delwedd 10: Torfaen, Grŵp 1, darluniau cyfoethog





Delwedd 11: Torfaen, Grŵp 2, darluniau cyfoethog




Delwedd 12: Torfaen, Grŵp 2, darluniau cyfoethog




Delwedd 13: Torfaen, Grŵp 2, darluniau cyfoethog



Delwedd 14: Torfaen, Grŵp 2, darluniau cyfoethog




Delwedd 15: Torfaen, Grŵp 2, darluniau cyfoethog

